

Tocyn Tymor Meysydd Parcio Parciau Gwledig Wrecsam
AMODAU DEFNYDDIO



1. Mae'r Disg Tocyn Tymor yn ddilys ym Mharc Gwledig Tŷ Mawr, Canolfan Ymwelwyr Melin y Nant a Pharc Gwledig Dyfroedd Alyn Gwersyllt a meysydd parcio Llai. Nid yw'n ddilys mewn unrhyw feysydd parcio eraill y Cyngor.
2. Nid oes modd trosglwyddo disgiau Tocyn Tymor a gyhoeddwyd i'r deilydd, ac os na fydd deilydd y Tocyn Tymor angen defnyddio'r Maes Parcio, byddant yn ei ildio i'r Cyngor.
3. Ni fydd cerbydau gyda bathodyn glas dilys yn ddarostyngedig i gostau ac felly ni fydd angen disg tocyn tymor.
4. Mae'r tocynnau yn ddilys am flwyddyn o'r dyddiad cyflwyno.
5. Nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ("y Cyngor") yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled neu ddifrod i geir na'u cynnwys wedi'u parcio yn y Maes Parcio, oni bai fod colled neu ddifrod o'r fath yn cael ei achosi gan esgeulustod y Cyngor.
6. Nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw anaf personol i ddeiliad Tocyn Tymor, nac unrhyw deithiwr gyda deiliad y Tocyn Tymor neu unrhyw bersonau a awdurdodir gan y perchennog i fynd mewn i'r Maes Parcio mewn cysylltiad â defnyddio'r Tocyn Tymor, oni bai fod anaf o'r fath yn cael ei achosi gan esgeulustod y Cyngor.
7. Bydd y disg Tocyn Tymor yn cael ei osod mewn lle amlwg yn ffenestr flaen cerbyd deilydd y ddisg er mwyn i Swyddog Awdurdodedig y Cyngor ei weld yn hawdd er mwyn gwirio ei fod yn ddilys a chyfredol mewn perthynas â'r Maes Parcio.
8. Ni fydd deilydd y Tocyn Tymor yn achosi neu ganiatáu i'w g/cherbyd gael ei barcio mewn modd sy'n rhwystro mynediad, maes gwasanaeth neu fae, hydrant, is-orsaf neu unrhyw fynedfa neu allanfa o adeiladau sydd ger y Maes Parcio tra'u bod yn y Maes Parcio.
9. Bydd y disg Tocyn Tymor a roddwyd i'r deilydd yn aros yn eiddo i'r Cyngor a bydd yn cael ei ildio i'r Cyngor ar y dyddiad y daw i ben, neu ar benderfyniad cynt am yr hawl i barcio yn y Maes Parcio a nodir yn y disg Tocyn Tymor os bydd yn cael ei dynnu yn ôl gan y Cyngor am ba reswm bynnag.
10. Os bydd deilydd y Tocyn Tymor yn colli'r disg a gyhoeddwyd iddo/iddo, gellir cael disg newydd am £10 (deg punt). Bydd hyn yn ychwanegol at unrhyw daliadau Rhybudd Tâl Cosb sy'n ddyledus am ei golli.
11. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i gau'r Maes Parcio y mae'r disg Tocyn Tymor yn ymwneud ag ef ar unrhyw ddiwrnod pan fo angen y Maes Parcio ar gyfer unrhyw achlysur dinesig neu achlysur arbennig arall neu mewn achos o argyfwng cyhoeddus neu pan fo angen gwaith atgyweirio a chynnal a chadw yn y Maes parcio ei hun neu i unrhyw adeiladau neu gyfleusterau cyfagos.
12. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i derfynu'r hawl i barcio a roddir gan y Tocyn Tymor. Ni fydd y Cyngor yn gwneud unrhyw ad-daliadau os bydd y gostyngiad tocyn tymor yn dod i ben neu os na fydd y deilydd angen y tocyn ddim mwy.
13. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i gyflwyno Rhybudd Tâl Cosb mewn unrhyw achos os:-
 - a) Nad oes disg Tocyn Tymor wedi'i arddangos.
 - b) Os ydi'r cerbyd wedi ei barcio'n anghywir.
 - c) Os na chaniateir y math o gerbyd yn yr ardal honno.
 - d) Os yw trelar y cerbyd wedi'i adael neu'n cael ei ddefnyddio yn y lle parcio heb docyn.
 - e) Os oes unrhyw doriad arall o Orchymyn (Man Parcio Oddi ar y Stryd) Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn prosesu data personol, gweler yr hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan: www.wrecsam.gov.uk